

# Disodli'r tiwb tenau – GN ReSound





Sylwch fod y ddelwedd hon yn dangos cymorth clyw ar gyfer y glust dde. Ar gymorth clyw ar gyfer y glust chwith, bydd y gromen yn wynebu tuag i lawr pan fydd y plygiad wedi cael ei droi 90 gradd yn wrthglocwedd.

Trowch y plygiad (y darn o blastig sy'n cysylltu'r tiwb a'r cymorth clyw) 90 gradd yn wrthglocwedd, yna tynnwch y plygiad allan o'r cymorth clyw, fel yn y llun uchod. Ar ôl ei droi 90 gradd yn wrthglocwedd, gwthiwch blygiad y darn newydd i mewn i'r cymorth clyw. Pan fydd y plygiad yn y cymorth clyw, trowch y plygiad yn glocwedd i 12 o'r gloch er mwyn ei gadw yn ei le. Sicrhewch fod y tiwb ddim yn troi pan fyddwch chi'n ei ddisodli.

## Sut mae gwybod pa un yw'r chwith a'r dde




Mae eich cymhorthion clyw yn cael eu rhaglenni i gyfateb i'ch clyw ym mhob clust, felly mae'n bwysig gwisgo'r cymorth clyw cywir ar yr ochr gywir. Ar waelod y cymorth clyw, dylech chi allu gweld smotyn coch neu las (sef y marciwr ar y cymorth clyw). Mae'r marciwr coch yn dynodi'r cymorth clyw ar gyfer yr ochr dde ac mae'r marciwr glas yn dynodi'r cymorth clyw ar gyfer yr ochr chwith. Felly, ar waelod eich tiwb, dylech chi allu gweld rhif a llythyren mewn coch neu las. Sicrhewch fod y tiwb cywir yn cyfateb i'r cymorth clyw cywir.

Crëwyd y delweddau gan GN Hearing ac fe'u golygwyd gan BIP Cwm Taf Morgannwg